

Esgobaeth Bangor



Cynllun



Datblygu'r Gymraeg

Wedi ei baratoi gyda chymorth Tîm Hybu

Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniodd gydnabyddiaeth y

Comisiynydd ar 07/05/2026



Ein sefydliad

Mae Esgobaeth Bangor yn rhan o'r Eglwys yng Nghymru ac mae dan arweiniad ac o dan ofal bugeiliol Esgob Bangor. Mae'r Esgobaeth yn cynnwys 27 o Ardaloedd Gweinidogaethol, gyda mwy na 170 o eglwysi, ac mae'n cwmpasu siroedd Ynys Môn a Gwynedd, ynghyd â rhannau o Bowys a Chonwy.

Fel Cristnogion yn Esgobaeth Bangor, gallwn olrhain ein hanes yn ôl i ddynion a merched sanctaidd a sefydlodd gymunedau o weddi a gwasanaeth ledled yr ardal mor gynnar â'r bumed ganrif. Dros fileniwm a hanner yn ddiweddarach, nid yw ein cenhadaeth wedi newid; fodd bynnag, mae'r cyd-destun yr ydym yn gweithredu ynddo heddiw yn newydd ac yn heriol.

Ymateb yr Esgobaeth i'r heriau hyn yw ymrwmo i weledigaeth o ddilyn Iesu gydag egni newydd ac mewn ffyrdd newydd. Yn ganolog i'r weledigaeth hon mae tri egwyddor sy'n llywio bywyd cyffredin yr Esgobaeth:

addoli Duw, tyfu'r Eglwys, a charu'r byd.

Mae **Tîm Deiniol** yn gweithio ar draws Esgobaeth Bangor i gefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth yr Esgobaeth, o dan arweiniad Ysgrifennydd yr Esgobaeth, Mrs Joanna Thomas. Mae'r Tîm yn darparu arbenigedd a chefnogaeth mewn meysydd allweddol megis cyllid, cyfathrebu, eiddo, ysgolion eglwysig, dirnadaeth, ac ymgysylltu.

Mae Esgobaeth Bangor ar hyn o bryd yn y broses o benodi Esgob newydd. Bydd Esgob Bangor yn gyfrifol am arweinyddiaeth ysbrydol ac eglwysig yr Esgobaeth, gan gefnogi'r clerigwyr a'r cymunedau ffydd, ac arwain gwaith cenhadaeth a gweinidogaeth yr Esgobaeth.

Hefyd, mae Tîm Deiniol yn cynnal prosiect **Llan**, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu pererindod, yn ogystal â gwaith eang gydag ysgolion ar draws yr Esgobaeth.

Pwysigrwydd y Gymraeg i ni a'n haddolwyr

Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Esgobaeth Bangor yn gweithredu ymhellach yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol. Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn, wrth gyflawni ein gweinidogaeth, ein cenhadaeth a'n gwasanaethau, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail eu bod yn gyfartal, bob amser ac i'r graddau y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.

Mae Esgobaeth Bangor yn gorff dwyieithog ac mae'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn i'r cyhoedd, staff, clerigion ac addolwyr wrth ddarparu gwybodaeth, ymateb i ymholiadau, neu mewn unrhyw fath arall o gyswllt. Bydd hyn yn berthnasol p'un a yw'r cyswllt yn bersonol, dros y ffôn, drwy ohebiaeth, neu drwy gyfryngau digidol. Bydd yr egwyddor hon hefyd yn cael ei chymhwyso ym mhob cyhoeddiad, hysbyseb, arwydd a chyfarfod cyhoeddus. Bydd dull staff Esgobaeth Bangor wrth ymateb i ymholiadau yn ei gwneud yn glir y gall pawb ddisgwyl gwasanaeth o'r un safon yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol â'u dewis iaith.

Bydd Tŷ Deiniol Esgobaeth Bangor yn sicrhau bod unrhyw gynllun, menter neu bolisi newydd a fabwysiadir yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun hwn ac yn hwyluso ac yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg. Lle bo'n berthnasol, bydd cyfeiriad at y Cynllun hwn yn cael ei gynnwys mewn unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisiâu. Wrth lunio polisiâu neu fentrau newydd, bydd asesiad yn cael ei wneud o'r canlyniadau ieithyddol tebygol, ac wrth fonitro polisiâu a mentrau a fabwysiadwyd gan Dŷ Deiniol, bydd eu heffaith ieithyddol yn cael ei hystyried yn briodol.

Er nad oes gofyniad statudol ar yr Eglwys i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae Esgobaeth Bangor yn teimlo'n gryf y dylid darparu cyfleusterau dwyieithog i'r gymuned. Rydym o'r farn bod cynnig gwasanaethau yn iaith ddewisol unigolion yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i brofiad yr unigolyn. Ein nod yw annog unigolion i deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus i ddefnyddio eu dewis iaith wrth addoli ac wrth gyfathrebu ag Esgobaeth Bangor. Mae arferion da eisoes yn bodoli, ac mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd yr Esgobaeth yn parhau i ddatblygu ac atgyfnerthu'r arferion hynny er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb ieithyddol wrth ddarparu ein gwasanaethau.

Wrth weithredu'r Cynllun hwn, bydd Esgobaeth Bangor yn ceisio cynnal yr egwyddorion canlynol:

- Bod aelodau o'r gymuned yn gallu mynegi eu barn a chyfleu eu hanghenion yn fwy effeithiol yn eu dewis iaith
- Bod aelodau o'r gymuned yn gallu cymryd rhan lawn mewn addoliad drwy gyfrwng eu dewis iaith
- Bod darparu gwybodaeth ac adnoddau yn newis iaith yr unigolyn yn elfen allweddol o wasanaeth o safon
- Bod galluogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith yn rhan bwysig o arfer da a pharchus

Mae'r Cynllun hwn yn egluro sut y bydd Esgobaeth Bangor yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith wrth ddarparu ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth. Bydd pob aelod o staff a chlerig yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Cynllun hwn ac yn ei weithredu lle bo hynny'n berthnasol ac yn ymarferol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau gwelliant parhaus i'r Cynllun er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'n haddolwyr a'r gymuned ehangach.

Ein Cynnig Cymraeg

Ein Cynnig Cymraeg

Mae Esgobaeth Bangor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cyflawn dwyieithog ym mhob agwedd ar waith yr Esgobaeth, gan gynnwys darpariaeth i'r cyhoedd, addolwyr a staff.

- Mae hunaniaeth a delwedd Esgobaeth Bangor yn gwbl ddwyieithog. Caiff egwyddor cydraddoldeb ieithyddol ei chynnal bob amser, gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben neu o flaen y Saesneg ym mhob deunydd cyhoeddus.
- Rydym yn ceisio sicrhau bod pob neges gyhoeddus yn cael ei chyflwyno'n ddwyieithog ac ar yr un pryd ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, rydym wedi ymrwmo i gynnal gwefan gwbl ddwyieithog.
- Rydym yn annog ac yn cefnogi aelodau o staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg, yn ogystal â chefnogi'r rheini sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dymuno gwella eu sgiliau iaith.
- Rydym yn annog unigolion i deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus wrth ddefnyddio eu dewis iaith ffydd wrth addoli. Yn yr un modd, rydym yn annog unigolion i gysylltu â'r Esgobaeth yn eu dewis iaith.
- Rydym yn cynnig gwasanaeth rhagweithiol drwy gynnig y Gymraeg yn gyntaf a thrwy ddechrau sgysiau yn Gymraeg lle bo hynny'n briodol.
- Wrth groesawu gwesteion a staff o du allan i Gymru i Esgobaeth Bangor, byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac yn hyrwyddo dealltwriaeth ohonynt.

Y swyddog cydlynu

Elin Owen
Galluogydd y Gymraeg – Esgobaeth Bangor.
elinowen@yreglwysyngnghymru.org.uk

Cyfnod adolygu

Bydd Elin Owen, Galluogydd y Gymraeg, yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun yn unol â'r terfynau amser a nodir. Bydd adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i Ysgrifennydd yr Esgobaeth, gan amlinellu'r camau a gymerwyd i weithredu a datblygu'r Cynllun Datblygu'r Gymraeg.

Bydd Esgobaeth Bangor yn adolygu ac, lle bo angen, yn diwygio'r Cynllun bob tair blynedd. Bydd y broses adolygu hon yn cael ei chynnal mewn ymgysylltiad â Chomisiynydd y Gymraeg, a bydd adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw yn unol â'r gofynion perthnasol.

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Delio â phobl					
Wyneb i wyneb					
Mae modd i unrhyw un sydd yn dymuno siarad gydag aelod o staff yr esgobaeth neu glerig yn Gymreg allu gwneud os ydynt yn gofyn am hynny.	②	Byddwn yn parhau i sicrhau bod y rhai sy'n dymuno siarad wyneb yn wyneb gyda gyda chlerig neu aelod o staff yr esgobaeth yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny bob amser. Byddwn yn parhau i annog clerigion a staff yr esgobaeth sy'n siarad Cymraeg i wneud y mwyaf o'u sgiliau.	②	Holl staff a chlerigwyr esgobaethol	Yn gyfredol
Dros y ffôn Mae gennym linell gyswllt Cymraeg	③	Mae croeso i bobl siarad Cymraeg neu Saesneg wrth ymdrin ag Esgobaeth Bangor dros y ffôn. Os bydd y sgwrs yn cael ei chychwyn yn Gymraeg â'r aelod o staff sy'n ateb yr alwad yn methu darparu gwasanaeth dwyieithog, fe fyddan nhw'n esbonio'r sefyllfa ac yn gofyn i siaradwr Cymraeg eu ffonio yn ôl neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg.	3	Holl staff a chlerigwyr esgobaethol	Yn gyfredol
Ymateb i lythyrau ac e-byst Rydym yn anelu i ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth rydym yn ei dderbyn yn Gymraeg. Nid yw hyn yn effeithio ar yr amser mae'n ei gymryd i ni ymateb.	③	Byddwn yn parhau i anelu i ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth rydym yn ei dderbyn yn y Gymraeg.		Holl staff a chlerigwyr esgobaethol	Yn gyfredol
Danfôn llythyrau ac e-byst				Holl staff a chlerigwyr esgobaethol	Yn gyfredol

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Rydym yn cyfathrebu'n ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig ar rai prosiectau ond nid ar bob achlysur.	②	Byddwn yn parhau i anfon llythyrau ac e-byst a fwriedir i'w dosbarthu'n eang yn ddwyieithog. Byddwn yn ceisio anfon llythyrau ac e-byst at unigolion yn ddwyieithog. Ein nod yw anfon llythyrau ac e-byst at unigolion yn ddwyieithog bob amser. Byddwn yn cynnwys datganiad ar lofnodion e-bost sy'n nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg	3	Holl staff a chlerigwyr esgobaethol	Yn gyfredol
Ydych chi'n cadw cofnod o ddewis iaith eich ymgysylltyddion neu ddefnyddwyr? E.e. ar excel neu CRM					
Mae ganddo ni fasdata, ond does dim cofnod o ddewis iaith ymgysylltyddion.	①	Rydym yn y broses o wneud asesiad llawn o ddewis iaith ymgysylltyddion ar ardaloedd. Bydd hynny yn digwydd dros gyfnod o amser a bydd y wybodaeth yn cael ei nodi a'i diweddarau yn ystod y broses. Mae'r data sydd yn bodoli ar y funud wedi dyddio ac yn anghyflawn. Bydd pob diweddariad yn cael ei wneud yn unol â gofynion diogelu data, gan sicrhau bod y data'n cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn cael ei gadw'n ddiogel.	2	Elin Owen	Ebrill 2027
laith Gwaith		<u>laith Gwaith</u>			

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Rydym yn annog i swyddogion sy'n siarad Cymraeg wisgo nwyddau laith Gwaith	①	Rydym yn sicrhau cyflenwad o adnoddau laith Gwaith at ddefnydd staff a chlerigion ac yn gwneud ymdrech i'w harddangos a'u defnyddio yn arbennig wrth ddod i gyswllt â'r cyhoedd. Byddwn yn parhau i wneud defnyddo laniards a bathodynnau dysgwyr a siaradwyr Cymraeg, gan annog pawb i'r defnyddio.	3	Elin Owen	Yn gyfredol
Delwedd					
Enw eich cwmni neu sefydliad Mae ein enw yn cael ei arddangos yn ddwyieithog.	③	Canllaw dylunio dwyieithog Byddwn yn parhau i arddangos ein enw yn ddwyieithog.	3	Ysgrifennydd yr Esgobaeth	Yn gyfredol
Nodwch os yw'r pethau isod ar gael yn:					
Cardiau busnes/cyfarch Dwyieithog.	③	Byddwn yn parhau i ddefnyddio cardiau cyfarch dwyieithog.	3	Ysgrifennydd yr Esgobaeth	Yn gyfredol
Papur pennawd Dwyieithog.	③	Byddwn yn parhau i ddefnyddio papur penawd dwyieithog.	3	Ysgrifennydd yr Esgobaeth	Yn gyfredol

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Adnoddau marchnata– ee Pop-ups / Baneri / Posteri (digidol a statig) Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Byddwn yn parhau i arddangos adnoddau gweledol yn ddwyieithog.	3	Holl staff a chlerigwyr esgobaethol	Yn gyfredol
Llofnod e-bost Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Byddwn yn parhau i ddefnyddio llofnod e-bost dwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.	3	Holl staff a chlerigwyr esgobaethol	Yn gyfredol
Pecynnu Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Bydd ein deunydd printiedig yn parhau i fod yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn yr un ddogfen ac mewn arddull sy'n addas ar gyfer y ddogfen. Os nad yw'n bosibl cyhoeddi dogfennau mewn fformat dwyieithog, yna bydd fersiynau cyfatebol Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd. Bydd pecynnau yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog bob amser. Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg o safon uchel ac yn y cywair priodol, ac yn ystyriol o'r gynulleidfa darged. Bydd y Gymraeg yn ymddangos mewn print gwyrdd ar Saesneg mewn print du yn unol â canllawiau brandio'r esgobaeth	3	Ysgrifennydd yr Esgobaeth	Yn gyfredol
Proffil ar y cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Bydd ein presenoldeb yn parhau i fod yn ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol.	3	Holl staff a chlerigwyr esgobaethol	Yn gyfredol

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Cyhoeddiadau e.e. taflenni gwybodaeth Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Bydd ein deunydd printiedig yn parhau i fod yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn yr un ddogfen ac mewn arddull sy'n addas ar gyfer y ddogfen. Os nad yw'n bosibl cyhoeddi dogfennau mewn fformat dwyieithog, yna bydd fersiynau cyfatebol Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd. Bydd deunyddiau addoli cyhoeddus cyfredol yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog bob amser. Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg o safon uchel ac yn y cywair priodol, ac yn ystyriol o'r gynulleidfa darged. Bydd y Gymraeg yn ymddangos mewn print gwyrdd ar Saesneg mewn print du yn unol â canllawiau brandio'r esgobaeth.	3	Holl staff a chlerigwyr esgobaethol	Yn gyfredol
Arwyddion Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Byddwn yn parhau i ddarparu arwyddion cwbl ddwyieithog, a bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion mewnol ac allanol yn y swyddfa ac yn yr eglwysi.	3	Ysgrifennydd yr Esgobaeth	Yn gyfredol
Digidol					
Gwefan Mae ein gwefan yn ddwyieithog gyda'r tudalennau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ochr yn ochr ar yr un pryd ac cael eu diweddarau'n gyson.	③	Mae modd i aelodau o'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg ar wefan Esgobaeth Bangor. Mae'r wybodaeth Gymraeg yn ymddangos mewn print gwyrdd ar Saesneg mewn print du yn unol â canllawiau brandio'r esgobaeth.	3	Matt Batten	Yn gyfredol
Cyfryngau Cymdeithasol Mae pob neges yn cael ei roi'n ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig	③	Byddwn yn parhau i sicrhau bod pob neges yn cael ei roi'n ddwyieithog ar yr un pryd ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol . Os oes rhywun yn gofyn cwestiwn yn y Gymraeg byddwn yn ei ateb yn Gymraeg.	3	Matt Batten	Yn gyfredol

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Digwyddiadau ynghyd â Gwasanaethau Eglwysig			3		
Nid ydym yn gofyn beth yw dewis iaith mynychwyr. Darperir cyfieithu ar y pryd mewn pwyllgorau llywodraethu esgobaethol. Ni ofynnir i gynulleidfaoedd a mynychwyr yr eglwys mewn digwyddiadau hyfforddi beth yw eu dewis iaith.	①	Er mwyn gwella'r ddarpariaeth ieithyddol mewn digwyddiadau a gwasanaethau eglwysig heb ofyn yn uniongyrchol am ddewis iaith mynychwyr, byddwn yn mabwysiadu dull rhagweithiol sy'n normaleiddio'r Gymraeg fel rhan annatod o fywyd yr eglwys, gan gynllunio digwyddiadau'n ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf, cynnig cyfleoedd naturiol i ddefnyddio'r ddwy iaith ar lafar ac yn ysgrifenedig, adeiladu ar y ddarpariaeth cyfieithu bresennol lle bo'n briodol, a meithrin hyder staff, gweinidogion a gwirfoddolwyr i ddefnyddio Cymraeg sylfaenol, ac felly greu amgylchedd cynhwysol, croesawgar a pharchus sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog yr Esgobaeth. Byddwn hefyd yn llunio rhestr gyfredol o wasanaethau eglwysig Cymraeg yn unig eu hiaith gyda'r bwriad o gyhoeddi 'r wybodaeth ar wefan yr Esgobaeth.	2	Holl staff a chlerigwyr esgobaethol	Yn gyfredol
Pan fyddwch yn trefnu digwyddiad sydd ar agor i'r cyhoedd beth yw iaith yr isod:					
Gwahoddiadau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Parhau i ddarparu adnoddau yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.	3	Pwy bynnag sy'n gyfrifol am y digwyddiad	Yn gyfredol

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Ffurflenni ee archebu / cofrestru / adborth Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Parhau i ddarparu adnoddau yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.	3	Pwy bynnag sy'n gyfrifol am y digwyddiad	Yn gyfredol
Cyhoeddiadau ee rhaglen, pecyn mynychwyr Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Parhau i ddarparu adnoddau yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.	3	Pwy bynnag sy'n gyfrifol am y digwyddiad	Yn gyfredol
Siaradwyr / Cyhoeddiadau sain Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Parhau i ddarparu adnoddau yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.	3	Pwy bynnag sy'n gyfrifol am y digwyddiad	Yn gyfredol
Arwyddion Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Parhau i ddarparu adnoddau yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.	3	Pwy bynnag sy'n gyfrifol am y digwyddiad	Yn gyfredol
Baneri / Pop-ups / Arddangosfeydd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Parhau i ddarparu adnoddau yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.	3	Pwy bynnag sy'n gyfrifol am y digwyddiad	Yn gyfredol
Tocynnau (system gofrestru ee eventbrite?) Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Parhau i ddarparu adnoddau yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.	3	Pwy bynnag sy'n gyfrifol am y digwyddiad	Yn gyfredol
Hyfforddiant					

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Mae rhai cyrsiau ar gael yn Gymraeg ond yn bennaf byddant yn Saesneg. Byddwn yn marchnata cyrsiau penodol yn ddwyieithog gan ddynodi'r cyrsiau Cymraeg yn glir.	②	Byddwn yn anelu at gynnal mwy o ddigwyddiadau hyfforddi yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog, gan gynllunio'r rhain yn fwrriadol a'u hysbysebu felly. Mae modd bellach wneud cyrsiau diogelu drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda adnoddau rhai cyrsiau ar gael yn ddwyieithog. Byddwn yn anelu i gael yr adnoddau i gyd yn ddwyieithog.	3	Pwy bynnag sy'n gyfrifol am y digwyddiad	Yn gyfredol
Datblygu Gweithlu		Yn seiliedig ar yr angen i gyflawni'r ymrwymadau a amlinellir yn y Cynllun hwn, bydd Esgobaeth Bangor yn asesu yn ofalus a yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer pob swydd wag o fewn yr Esgobaeth. Bydd holl staff yr Esgobaeth yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg.			
Recriwtio staff a gwirfoddolwyr Rydym yn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer ein holl swyddi newydd	③	Byddwn yn parhau i asesu a yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer pob swydd wag, ar gyfer staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Pan fydd y Gymraeg yn cael ei nodi fel sgil hanfodol neu ddymunol ar gyfer swydd wag, bydd y disgrifiad swydd a'r fanyleb person yn nodi'r rhagofynion ieithyddol penodol sydd eu hangen ar ddeiliad y swydd i gyflawni'r rôl, gan gynnwys manylion am y cyd-destun(au) lle byddai angen sgiliau gwrando, darllen, siarad a/neu ysgrifennu Cymraeg ar ddeiliad y swydd.	3	Ysgrifennydd yr Esgobaeth	Yn gyfredol
Hysbysebu swyddi gwag					
Rydym yn paratoi hysbysebion yn ddwyieithog os yw'r Gymraeg yn sgil dymunol neu hanfodol	②	Byddwn yn hysbysebu pob swydd yn ddwyieithog, gan fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i hysbysebu mewn cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg.	3	Ysgrifennydd yr Esgobaeth	Yn gyfredol

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Cofnodi sgiliau Cymraeg eich gweithlu			3		
Rydym yn cadw cofnod o ba swyddogion sy'n gallu'r Gymraeg, ond nid yw'n cael ei ddiweddarau yn aml	②	Bydd rhestr o aelodau'r gweithlu sydd yn gallu siarad Cymraeg yn cael ei llunio ar sail archwiliad iaith. Bydd y rhestr yn cael ei diweddarau yn ganolog gan Esgobaeth Bangor.	3	Elin Owen	Ebrill 26-parhaus
Rhoi gwybod i'ch gweithlu am eich gwasanaethau Cymraeg					
Mae staff a chlerigion sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd yn ymwybodol o'n gwasanaethau Cymraeg	②	Rydym wedi dosbarthu gwybodaeth a hyfforddiant am ein cefnogaeth i'r Gymraeg, gan gynnwys adnoddau printiedig, gwasanaethau cyfieithu, technoleg gwybodaeth a gwersi Cymraeg. Mae e-byst yn cael eu hanfon yn nodi gwersi Cymraeg yn rheolaidd i ddysgwyr. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei roi ar ddatblygiadu technolegol drwy gyfrwng y Gymraeg a hunanieth.	3	Elin Owen	Mehefin 26
Dylanwadu ar bartneriaid ac aelodau i gynnig gwasanaethau Cymraeg		Nid oes proses swyddogol, ond rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid ac aelodau ac felly'n gallu monitro eu hymrwymiad i'n darpariaeth Gymraeg.			
Wrth gwrdd â darparwyr byddwn yn nodi ein hymrwymiad at y Gymraeg a thrafod unrhyw oblygiadau arnyn nhw	③	Gallwn gynnig y Cynllun hwn fel rhan o'r pecyn gwybodaeth amdanom i ddarparwyr/partneriaid yn y dyfodol.			

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
<p>Dysgu a defnyddio'r Gymraeg Rydym yn cefnogi swyddogion i ddysgu Cymraeg yn ystod oriau gwaith. Rydym hefyd yn annog defnydd o dechnoleg iaith Cymraeg (ee cyfieithwyr ar lein, meddalwedd siarad, meddalwedd cofnodi cyfarfodydd ayyb) i'w cynorthwyo gyda datblygu eu sgiliau Cymraeg.</p>	<p>③</p>	<p>Byddwn yn parhau i annog holl staff Esgobaeth Bangor i ddysgu Cymraeg. Bydd darpariaeth ar gael fel bod pob safon o ddysgwr yn derbyn cefnogaeth ynghyd â hyfforddiant wedi ei deilwra at anghenion gwaith. Byddwn yn sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o hyn ac yn codi ymwybyddiaeth o adnoddau sydd ar gael gan 'laith Gwaith' ynghyd â gwasanaethau cyfieithu a phrawf ddarllen 'Helo Blod'. Byddwn hefyd yn parhau i annog pawb i ddefnyddio technoleg iaith ynghyd â Cysill a CysGair i sicrhau cysondeb safon o Gymraeg ysgrifenedig.</p>	<p>3</p>	<p>Elin owen</p>	<p>Ebrill 26 - Pan fydd yr angen yn codi</p>